Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Gyfraith a'r Rheoliadau

Fepio



# Pam mae'r gyfraith a rheoleiddio yn bwysig?

Mae deddfau yno i **amddiffyn ein diogelwch**, ar y cyd ac fel unigolion, ac i sicrhau ein **rhyddid sylfaenol.** Gall deddfau fod yn berthnasol i ddinasyddion a sefydliadau.

Mae gan y gyfraith a rheoliadau rôl allweddol wrth leihau cyfraddau niwed a achosir gan ysmygu a fepio. Mae'n gwneud hynny trwy'r canlynol:

- Cyfyngu mynediad, yn enwedig i blant a phobl ifanc
- Darparu gwybodaeth fel y gall darpar ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus
- Gweithredu safonau ar gyfer y cynhyrchion sydd ar gael (er enghraifft, crynodiad nicotin, cynhwysion gwaharddedig)
- Cyfyngu ar sut y gall y diwydiant hyrwyddo eu cynhyrchion i annog pobl i'w defnyddio (er enghraifft, cyfyngiadau ar hysbysebu)
- Cyfyngu ar ble y gall pobl ysmygu (er enghraifft, ysgolion, ysbytai a meysydd chwarae di-fwg)
- Lleihau effeithiau amgylcheddol, yn ogystal ag effeithiau cynhyrchion ar iechyd (er enghraifft, y Gwaharddiad ar Fêps Tafladwy a gyflwynwyd yn 2025)

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y gyfraith mewn perthynas â fêps

Mae deddfau fepio yng Nghymru a'r DU yn gysylltiedig â deddfwriaeth tybaco.

Mae'r canlynol yn **anghyfreithlon**:

- Gwerthu tybaco neu gynhyrchion fepio sy'n cynnwys nicotin i **unrhyw un o dan 18 oed**.
- **Prynu neu geisio prynu'r** cynhyrchion hyn i unrhyw un o dan 18 oed ('prynu dirprwyol').

Os canfyddir bod manwerthwyr neu unigolion yn torri'r gyfraith, gellir eu **herlyn**.
Mae Safonau Masnach Cymru yn darparu enghreifftiau lle mae camau cyfreithiol wedi'u cymryd yn erbyn manwerthwyr.

Mae gwerthu fêps tafladwy wedi'i wahardd ledled y DU (o 1 Mehefin 2025) i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd (gwastraff batris, sbwriel) ac oherwydd pryderon ynghylch eu hapêl a'u fforddiadwyedd i bobl ifanc.

**Bil Tybaco a Fêps 2024-25**

- Yn mynd trwy Senedd y DU ar hyn o bryd.
- Yn cyflwyno cyfyngiadau pellach ar bob fêp (sef y rhai sy'n cynnwys nicotin a heb nicotin) i leihau'r apêl i bobl ifanc.
- Cyfyngiadau i gynnwys blasau fêps, a sut maent yn cael eu pecynnu a'u hyrwyddo (gan gynnwys arddangosfeydd mewn siopau).
- Bydd hefyd yn gwahardd peiriannau gwerthu fêps.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (TRPR)

Mae'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau hirhoedlog ar gyfer cynhyrchion tybaco a fepio yng Nghymru a Lloegr yn rhan o'r TRPR, sydd â'r nodau canlynol:

- Gweithredu safonau ar gyfer diogelwch ac ansawdd

- Sicrhau bod gan ddefnyddwyr wybodaeth fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus

- Amddiffyn plant rhag dechrau defnyddio'r cynhyrchion hyn



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Rheolau’r TRPR ar gyfer fêps sy'n cynnwys nicotin:

- Ni ddylai tanciau e-sigaréts fod yn fwy na 2ml
- Caiff cyfaint uchaf yr e-hylif ei gyfyngu i 10ml
- Ni ddylai cryfder nicotin fod yn fwy na 20mg/ml
- Rhaid i gynhyrchion a’r deunydd pecynnu fod yn rhai sy’n atal plant ac yn dangos a oes rhywun wedi ymyrryd â nhw
- Rhai cynhwysion gan gynnwys rhai gwaharddedig (er enghraifft, lliwiau, caffein a thawrin)
- Cynnwys gofynion labelu a rhybuddion: “Mae’r cynnyrch hwn yn cynnwys nicotin, sy’n sylwedd hynod gaethiwus.”

Mae'r cyfyngiadau hyn yn lleihau'r risg o niwed, ond nid ydynt yn dileu'r risg yn llwyr.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Y gyfraith mewn perthynas â chynhyrchion tybaco

Mae deddfau a rheolau ychwanegol ar waith i wneud y canlynol:

- Gwneud cynhyrchion tybaco yn llai deniadol, yn enwedig i bobl ifanc
- Atal cwmnïau rhag gwneud honiadau camarweiniol am dybaco
- Sicrhau bod rhybuddion iechyd yn glir ac yn hawdd eu gweld

Prif nod y mesurau hyn yw atal pobl rhag dechrau ysmygu a lleihau cyfraddau ysmygu.

Mae rheolau hefyd i fynd i'r afael â masnachu tybaco'n anghyfreithlon, e.e., rhaid i bob cynnyrch tybaco fod â chod unigryw fel y gellir ei olrhain.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig **"gwaharddiad ysmygu yn ôl cenedlaethau".** Mae hyn yn golygu na fyddai unrhyw un a aned ar **1 Ionawr 2009** neu ar ôl y dyddiad hwnnw *byth* yn cael caniatâd i brynu cynhyrchion tybaco yn gyfreithlon (yn amodol ar basio'r Bil Tybaco a Fepio).

**Mae gofynion y gyfraith mewn perthynas â thybaco yn cynnwys y canlynol:**

- Rhaid i becyn o sigaréts **gynnwys o leiaf 20 o sigaréts** a dim ond yn ei **ddeunydd pecynnu gwreiddiol** y ceir ei werthu.
- Mae cynhyrchion yn ddarostyngedig i **dreth toll gartref ofynnol.**
- Rhaid i siopau sy'n gwerthu tybaco **ddangos hysbysiad** sy'n nodi 'ei bod yn anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed' (maent yn cael eu hannog i ddangos hysbysiad tebyg ar gyfer cynhyrchion fepio, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny).
- **Ni ddylid arddangos cynhyrchion** yn y siop.
- Rhaid gwerthu cynhyrchion tybaco mewn **pecynnu safonol (plaen)** sy'n cynnwys **rhybuddion iechyd graffig**. Mae'r mesur hwn yn gwahardd brandio ar ddeunydd pacio i bob diben.
- **Gwaharddiad ar flasau** (gan gynnwys menthol).

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cyfyngiadau ar Hysbysebu a Hyrwyddo

Mae hysbysebu a hyrwyddo tybaco a chynhyrchion fepio yn ddarostyngedig i gyfyngiadau. Mae hyn yn cynnwys sut y gall cwmnïau hyrwyddo eu cynhyrchion ac i bwy.

Gwaharddodd Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 hysbysebu a hyrwyddo (gan gynnwys noddi) cynhyrchion tybaco yn y DU.

Gosodwyd cyfyngiadau tebyg ar hyrwyddo fêps yn 2016. Mae rheolau hysbysebu ar gyfer fêps yn tynhau. Mae'r Bil newydd yn cynnig ymestyn gwaharddiadau ar hysbysebu a noddi yn yr un modd â thybaco i bob cynnyrch fepio, a chyfyngu ar arddangosfeydd mewn siopau.

Mae Awdurdod Safonau Hysbysebu'r DU yn darparu codau hysbysebu a marchnata i'r diwydiant y dylid eu dilyn ar gyfer **cynhyrchion Fepio** a **Thybaco** .

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Mannau di-fwg a'r gyfraith

Mae deddfwriaeth ddi-fwg yng Nghymru (2007, wedi'i diweddaru yn 2021) yn amddiffyn pobl rhag mwg ail-law.

Mae ysmygu tybaco wedi'i wahardd mewn mannau cyhoeddus caeedig, gweithleoedd, tir ysgolion, ysbytai, a cherbydau sy'n cludo pobl dan 18 oed.

Rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am y mannau hyn gymryd camau rhesymol i atal ysmygu.

O dan y Bil Tybaco a Fepio, gellid gwahardd fepio yn yr un mannau cyhoeddus ag ysmygu.

**Mae'r mannau cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg yn ôl y gyfraith yn cynnwys:**

Mannau cyhoeddus dan do/caeedig

Gweithleoedd dan do/caeedig

Tir ysgolion

Meysydd chwarae

Tir ysbytai

Cerbydau preifat a chyhoeddus sy'n cludo pobl dan 18 oed

Cerbydau a ddefnyddir ar gyfer gwaith gan fwy nag un unigolyn

Llety gwyliau

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Crynodeb o Fil Tybaco a Fêps y DU

Bydd y Bil yn creu 'cenhedlaeth ddi-fwg' trwy ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco, papurau sigaréts a chynhyrchion ysmygu llysieuol i unrhyw un a aned ar 1 Ionawr 2009 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd y DU, bydd y polisi yn dod i rym ar 1 Ionawr 2027, pan fydd y rhai a aned ar 1 Ionawr 2009 yn troi'n 18 oed. Mae hyn yn golygu na ellir byth gwerthu cynhyrchion tybaco yn gyfreithlon i'r grŵp oedran hwn nac unrhyw un iau.

Roedd cefnogaeth gref ymysg y cyhoedd a'r sector iechyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Mae'r Bil hefyd yn cymryd camau cryf i leihau mynediad at fêps a'r galw amdanynt ymysg pobl ifanc, gan gynnwys:

- Cyfyngu ar ddyluniadau, blasau, arddangosfeydd mewn siopau, hyrwyddiadau a marchnata cynhyrchion fepio
- Cynyddu pwerau gorfodi a chosbau ar gyfer gwerthu fêps i bobl dan oed
- Codi prisiau i leihau mynediad a’r galw ymysg pobl ifanc

# Tybaco a fêps anghyfreithlon

Nid yw tybaco a fêps anghyfreithlon yn cydymffurfio â deddfau rheoli tybaco.

Mae'r risg o niwed o dybaco a fêps anghyfreithlon yn uchel, oherwydd eu bod yn osgoi deddfau sydd yno i amddiffyn defnyddwyr rhag cynnwys peryglus neu gynhyrchion o ansawdd isel.

Mae Swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru a ledled y DU yn adrodd bod y farchnad yn cael ei llenwi â chyfarpar fepio heb ei reoleiddio sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc.

Mae hyn yn bryder am fod y cynhyrchion hyn yn aml yn cael eu gwerthu o leoedd fel cartrefi a thrwy’r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag mewn manwerthwyr bach.

Gall masnachu fêps a thybaco’n anghyfreithlon roi pobl ifanc mewn perygl o ddod i gysylltiad â gweithgarwch troseddol a grwpiau troseddol.

# Cynhyrchion anghyfreithlon: goblygiadau iechyd

Mae cynhyrchion tybaco a fepio anghyfreithlon yn peri **risgiau ychwanegol i iechyd** oherwydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ac efallai nad ydynt yn bodloni safonau'r DU.

Mae astudiaethau ar fêps anghyfreithlon wedi canfod eu bod:

- Yn cynnwys metelau peryglus fel plwm, yn ogystal â chynhwysion eraill sydd wedi'u gwahardd yn y DU.
- Yn cynnwys crynodiad llawer uwch o nicotin a all arwain at risg uwch o gaethiwed i nicotin ac effeithiau andwyol cysylltiedig ar iechyd.
- Yn cael eu gwerthu mewn deunydd pecynnu nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau'r DU, h.y. heb unrhyw rybuddion nicotin arno.
- Â thanc sy'n fwy nag arfer, a all arwain at gymeriant gormodol o nicotin.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut i adnabod cynhyrchion tybaco neu fepio anghyfreithlon:

- Os yw rhywun yn gwerthu sigaréts neu fêps i blant a phobl ifanc, mae hyn yn anghyfreithlon.
- Os nad yw cynhyrchion yn cynnwys rhybuddion iechyd am nicotin, mae hynny'n anghyfreithlon.
- Os oes gan fêp danc neu gapasiti 'pwff' sy'n fwy nag arfer, mae hyn yn anghyfreithlon.
- Os yw sigaréts yn cael eu gwerthu bob yn un, mae hyn yn anghyfreithlon.
- Os yw cynhyrchion yn cael eu gwerthu am brisiau anarferol o rad, mae'n debyg bod hyn yn anghyfreithlon.
- Os yw cynhyrchion yn cael eu gwerthu o leoedd fel tai neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, mae'n debygol eu bod yn anghyfreithlon.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mynnwch air â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo!

Gallwch roi gwybod yn ddienw am dybaco neu fêps a werthir yn anghyfreithlon yng Nghymru trwy:

Roi gwybod ar-lein yn noifs-nobutts.co.uk

Crimestoppers (0800 555 111)

Cysylltu â Safonau Masnach yn eich cyngor lleol

Ffonio 101 (ymholiadau i'r heddlu nad ydynt yn rhai brys)

DIM ESGUS. BYTH.

NO IFS. NO BUTTS.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**